
WG 35.5.99

# ER COF.



Dyma fel y canodd Mr. W. J. Jones er cof am y diweddar

HENRY P. JONES, Ty Uchaf, Ceunant, Llanrug, ei daid, a fu farw

Mai 25th, 1927, yn 68 mlwydd oed :-

Ar un noswaith tra yn cysgu
Ar y gadair ger y tan,
Mi freuddwydiais mod i'n clywed
Llais fy nhaid yn canu can ;
Pan ddeffroais i'o'm breuddwyd
Mi a gofiais yn y fan
Fod fy annwyl daid yn gorwedd
Yn hen fynwent oer y Llan.

Tristwch inni oedd ei golli,
Wrth ei roddi yn y bedd,
Ond mae rhywbeth i'n cysuro—
Fod llawenydd yn y Nef ;
O, mae hiraeth arnaf beunydd,
Am gael gweld ei wyneb glan,
Ac mae'r bwthyn yn amddifad,
Heb ei felys swynol gan.

Treuliai lawer noswaith ddifyr
Gyda phlant y capel bach,
Yn y cyfarfodydd canu'n
Moli'r Iesu'n llon ac iach ;
Tra ynghanol ei lawenydd
Daeth rhyw angel ato ef,
Ac fe'i cymerth yn ei freichiau
I ganu anthem fawr y Nef.

Wrth im ganu hyn o eiriau,
Nid wy'n honni mod i'n fardd,
Ond mae lle i berarogli
Gan bob un o flodau'r ardd ;
Pwy a wyr na chawn ryw ddiwrnod
Gwrdd a'r Saint tu draw i'r llen,
Lle cawn yno orfoleddu
Iesu Grist am byth ? Amen.

X205310892.